# Rhaglen Gyflawn

**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYNHADLEDD GYSWLLT RHEIFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**

Dyddiad ac amser

**11.00 y.b., DYDD GWENER, 11EG TACHWEDD, 2016**

Lleoliad

**Y Ganolfan (ger yr Harbwr), Porthmadog, Gwynedd**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**(01341) 424301**

**glyndaobrien@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd: 04.11.16)

# CYNHADLEDD GYSWLLT RHEIFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN

## Cyngor Gwynedd

Y Cynghorwyr: E. Selwyn Griffiths, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Anne Lloyd Jones, Eryl Jones-Williams, Dewi Owen, Angela Russell, Eirwyn Williams, Gethin Glyn Williams ac Owain Williams.

## Cyngor Sir Ceredigion
Disgwyl Enwebiad

## Cyngor Sir Powys
Y Cynghorydd J M Williams

### AELODAU ERAILL:

| | |
|---|---|
| Dafydd Elis-Thomas | Aelod Cynulliad Dwyfor/Meirionnydd |
| Liz Saville Roberts | Aelod Seneddol Dwyfor/Meirionnydd |
| Dave Thomas | Llywodraeth Cymru |
| Claire Britton | Rheilffordd Ffestiniog |
| Cynghorydd Trevor Roberts | Pwyllgor Ymgynghorol Rheilffordd Amwythig/Aberyswyth |
| Tim Bell | Trenau Arriva Cymru |
| Ben Davies | Trenau Arriva Cymru |
| Rhydian Mason | Partneriaeth Rheilffordd y Cambrian |
| David Crunkhorn | Trenau Arriva Cymru |
| Samuel Hadley | Network Rail |
| Carl Jones | Network Rail |
| Helen Lewis | Ysgol Uwchradd Tywyn |
| Tudur O Williams | Ysgol Ardudwy |
| Pennaeth | Coleg Meirion-Dwyfor |
| Joyce Watson | AC Rhanbarthol dros Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Simon Thomas | AC Rhanbarthol dros Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Neil Hamilton | Aelod Cynulliad Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| David Woodhouse | Twristiaeth Aberdyfi a Tywyn |
| Tracy Parkinson | Rheilffordd Talyllyn |
| Roger Goodhew | Cymdeithas Teithwyr Amwythig-Aberystwyth |
| Sgt. Karl Anderson | Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig |
| Rob Newman | Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig |
| Inspector Mark Armstrong | Heddlu Gogledd Cymru |
| Cynghorydd Delwyn Evans | Grwp Mynediad Meirionnydd |
| Cynghorydd Alun Wyn Evans | Cynrychiolydd Meirionnydd Un Llais Gymru |
| Cynghorydd Trefor Jones | Cynrychiolydd Dwyfor Un Llais Cymru |
| David L Roberts | Parc Cenedlaethol Eryri |

# A G E N D A


**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

I ystyried unrhyw fater sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**4. COFNODION** 5 - 10

I gadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 20 Mai 2016.

(Copi'n amgaeedig)

**5. ADRODDIAD GAN NETWORK RAIL** 11 - 12

I dderbyn adroddiad gan Mr Sam Hadley a Mr Mark Peters, Network Rail.

(Copi'n amgaeedig)

**6. ADRODDIAD GAN TRENAU ARRIVA CYMRU CYF.**

I dderbyn adroddiad gan Mr Ben Davies, Trenau Arriva Cymru.

(Copi i'w ddosbarthu yn y cyfarfod)

**7. ADRODDIAD SWYDDOG RHEILFFORDD PARTNERIAETH Y CAMBRIAN** 13 - 19

I dderbyn adroddiad gan Swyddog Rheilffordd Partneriaeth y Cambrian.

(Copi'n amgaeedig)

**8. ADRODDIAD HEDDLU TRAFNIDIAETH BRYDEINIG** 20

I dderbyn adroddiad gan Mr Rob Newman, Heddlu Trafnidiaeth Brydeinig.

(Copi'n amgaeedig)

**9. CWESTIYNAU FFURFIOL** 21 - 23

I dderbyn ymateb I'r cwestiynau amgaeedig a dderbyniwyd ers y cyfarfod diwethaf.

(a) Atodiad A – Cwestiwn gan Mr Roger Goodhew
(b) Atodiad B – Cwestiwn gan Gyngor Tref Porthmadog

(c) Atodiad C – Llythyr gan Gyngor Cymuned Llannor ynglyn a phryder am ysbwriel ar y lein rhwng Pwllheli a Penychain.

(Copiau yn amgaeedig)

## 10. AELODAETH

I drafod cais a dderbyniwyd gan Swyddog Rhanbarthol Trafnidiaeth Strategol sy'n cynrychioli Ceredigion, Gwynedd a Powys, i fynychu cyfarfodydd o Bwyllgor Rheilffordd Arfordir y Cambrian.

## CYNHADLEDD GYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN

**Cofnodion cyfarfod Cynhadledd Gyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian a gynhaliwyd yn y Ganolfan, Porthmadog, ar ddydd Gwener, 20 Mai 2016 2015 o 1.00 o'r gloch tan 2.30 pm**

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr E. Selwyn Griffiths, Anne Lloyd Jones, Eryl Jones-Williams, Angela A. Russell, Eirwyn Williams, Owain Williams (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. Michael Williams (CS Powys), Liz Saville Roberts (Aelod Seneddol Dwyfor/Meirionnydd), David Roberts (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Ben Davies (Trenau Arriva Cymru Cyf.), Tracy Parkinson (Rheilffordd Talyllyn), Roger Goodhew (Cymdeithas Teithwyr Trenau Amwythig-Aberystwyth), D. Woodhouse (Twristiaeth Aberdyfi a Tywyn), Trefor Jones (Cylch Dwyfor Un Llais Cymru), Delwyn Evans (Grwp Mynediad Meirionnydd), Sam Hadley, Sian Lewis (Network Rail), Llinos Roberts (Swyddog Cludiant Cyhoeddus a Chymunedol), Mererid Watt (Cyfieithydd), Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Dewi Owen, Gethin Williams, Arglwydd Dafydd Elis Thomas (Aelod Cynulliad Dwyfor/Meirionnydd), Alun Wyn Evans (Cylch Meirionnydd Un Llais Cymru), Tudur Williams (Ysgol Ardudwy), Mansel Williams a Trevor Roberts (Pwyllgor Rheilffordd Amwythig-Aberystwyth), Claire Britton (Rheilffordd Ffestiniog ac Eryri), Rhydian Mason (Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian), Rob Newman (Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig).

1. **ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Selwyn Griffiths yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2016/17.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2016/17.**

3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

4. **MATERION BRYS**

**Gosod y cyfeiriad ar gyfer ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad Rheilffordd Cymru a'r Gororau**

Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi cynnal cyfarfod brys cydrhyngddo a'r Is-gadeirydd a Chadeirydd Pwyllgor Rheilffordd Amwythig-Aberystwyth i lunio ac i anfon ymateb i'r ymgynghoriad gan Lywodraeth Cynulliad yn ddiweddar ynglyn a'r masnachfraint. Tynnwyd sylw at rai o'r prif faterion megis:

- Angen mwy o gerbydau tren
- Trenau mwy aml ac ar amser

- Tren ychwanegol ar ddydd Sul (ac yn arbennig yn ystod gwyliau)
- Llawer o deithwyr yn teithio ar benwythnosau
- Tren uniongyrchol o Bwllheli I Gaerdydd
- Mwy o fannau parcio o gwmpas rhai gorsafoedd
- Adnoddau yn y gorsafoedd i brynu tocynnau ymlaen llaw
- Gwella gorsafoedd ar hyd y lein

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Cefnogi Aelodau anfon copi o'r ymateb i Aelodau'r Pwyllgor Rheilffordd y Cambrian, er gwybodaeth.**

**5. COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod y gynhadledd a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2015 yn ddarostyngedig i'r cywiriad isod:

Eitem 6 (iv) – Bryn Llestair (Picnic Island) – cywirio'r ffigwr i 12,000 o fyfyrwyr .... yn hytrach na 1,000.

**Penderfynwyd:** Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion uchod.

**5.1 Materion yn Codi o'r Cofnodion:**

**Bryn Llestair (Picnic Island)**

Cymerwyd y cyfle gan Mr David Roberts i gyfleu ei ddiolch i Network Rail yn deillio o adborth bositif mewn cyfarfod gyda Rebecca Collins ynglyn a'r tir ym mherchnogaeth Network Rail.

6. **ADRODDIAD NETWORK RAIL**

Croesawyd Sam Hadley, Rheolwr Cysylltiadau Cyhoeddus, a Sian Lewis, Noddwr Cynlluniau Masnachol (Network Rail), i'r cyfarfod.

**(A)** Eglurodd Sam Hadley mai ef fydd yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor hwn i'r dyfodol ac fe anogwyd yr Aelodau i gysylltu ag ef yn uniongyrchol gydag unrhyw faterion o bryder iddynt. Ymatebodd i'r cwestiynau ffurfiol a gyflwynwyd gan nodi fel a ganlyn:

(a) Croesfan Talwrn Bach, Llanbedr – beth yw'r diweddaraf ynglyn a gosod bariau ar y groesfan o ystyried bod trafnidiaeth yn cynyddu dros y groesfan hon yn ddyddiol a gyda'r Neuadd bentref yn cael ei ail-leoli (dros dro) i safle'r maes awyr, bydd mwy o drafnidiaeth eto.

Cefnogodd sawl aelod yr un pryderon a'r Cynghorydd Annwen Hughes, aelod lleol dros Llanbedr, a'i fod yn fater sydd wedi ei godi yn y pwyllgor hwn ers blynyddoedd lawer a bod gwir angen datrys y mater unwaith ac am byth.

Mewn ymateb, eglurwyd y bydd ymchwiliad o'r safle yn digwydd diwedd y flwyddyn ac fe addawyd y byddir yn hysbysu'r Swyddog Cefnogi Aelodau gan gyflwyno adroddiad cynhwysfawr ynghyd ag amserlen o'r datblygiad.

(b) Ysbwriel ar y rheilffordd yn ardal Cricieth yn benodol ochr ddwyreiniol y dref o'r Graig Ddu at Morannedd.

(c) Nifer o goed a llwyni wedi gor-dyfu ar hyd y rheilddord – beth yw cynlluniau Network Rail i dorri/rheoli'r tyfiant ac i gael gwared o llysiau dial.

Mewn ymateb, esboniwyd bod Network Rail yn cael gwared o ysbwriel ond bod yn rhaid blaenoriaethu e.e. bod prosiect enfawr yn Sir Fflint i glirio ar hyn o bryd yn wyneb y ffaith bod yr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yno gyda'r awdurdod lleol wedi darparu sgip a staff i gynorthwyo.

O safbwynt rhaglen llystyfiant, cadarnhawyd os oes unrhyw dyfiant yn broblemus fe fyddir yn blaenoriaethu. O safbwynt llysiau dial bod gan Network Rail gyfrifoldeb cyfreithiol i'w waredu os yn lledaenu ar dir trydydd parti. Gofynnwyd i'r aelod lleol am gyfeiriadau penodol lle mae llysiau'r dial yn broblemus ac fe fyddir yn dilyn hyn i fyny yn ddi-oed.

(ch) Ysbwriel rhwng Penychain a Phwllheli.

Eto, cadarnhaodd y swyddog y byddir yn ymdrin a'r uchod a bod Network Rail llawer iawn mwy ymatebol yng Ngogledd Cymru ac fe groesawir unrhyw gydweithrediad gyda Chynghorau lleol.

**Penderfynwyd: (a) Diolch i'r swyddog am yr ymateb a gofyn iddo ddilyn hwy i fyny yn ddi-oed.**

**(b) Bod y Cynghorydd Eirwyn Williams yn rhoi cyfeiriadau penodol lle mae'r llysiau dial yn lledaenu ar dir trydydd partion fel bo modd i'r Cydlynydd Cynnal a Chadw Gweithredol fedru mynd i'r afael a'r broblem.**

**(B)** Derbyniwyd cyflwyniad ar ffurf sleidiau gan Sian Lewis, Noddwr Cynlluniau Masnachol Network Rail, ar gefndir Traphont Abermaw, y gwaith hyd yma, sgop y rhaglen waith ynghyd a'r risgiau a'r sialensau ynghlwm a'r gwaith atgyweirio i draphont eiconig sydd yn rhestredig (Gradd II).

Amlinellwyd y gwaith a gyflawnwyd hyd yma sef:

- Ymweliadau safle dros haf 2015 er mwyn darganfod cyflwr presennol y draphont
- Cynhyrchu adroddiad o ddewisiadau lefel uchel ar gyfer strwythurau metalig a phren
- Cyfarfod gyda rhanddeiliaid megis Grwp Mynediad Traphont Abermaw (B-VAG)
- Cyfarfodydd gyda CADW, Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri

Nodwyd bod y gwaith wedi ei rannu yn ddau sef Gwaith Brys a Gwaith Datblygu ac fe amlinellwyd sgop y gwaith fel a ganlyn:

**Gwaith Brys:**

- Cynllun datblygu i ymgymryd ag atgyweiriadau i'r strwythur dur
- Gwaith yn cynnwys ail-osod rhybedi a deunyddiau eraill tebyg at debyg
- Disgwylir dyluniad cychwynnol erbyn diwedd mis Mai

- Anelir i'w gyflwyno i CADW a'r awdurdodau lleol ym mis Mehefin / Gorffennaf
- Cymeradwyaeth o'r dyluniad cychwynnol dros yr haf
- Dylunio manwl i'w ddatblygu Hydref 2016
- Dechrau ar y safle Gwanwyn 2017

**Gwaith Datblygu:**

- Datblygu a chynhyrchu adroddiad opsiynau dros yr haf
- Cyflwyno i CADW a'r awdurdodau lleol ym mis Medi 2016
- Rhagwelir cyfarfodydd pellach gyda CADW a'r awdurdodau lleol yn ystod yr Hydref i gytuno ar opsiwn ffafriol, a obeithir ei gael erbyn diwedd y flwyddyn
- Ar hyn o bryd amcangyfrifir y bydd y dyluniad yn cymryd blwyddyn neu fwy oherwydd natur sensitif y strwythur
- Gwaith gwirioneddol ar y safle i ddilyn rhywben yn 2018
- Pob un o'r uchod yn ddibynnol ar y camau dyluniad cychwynnol ac ymgynghoriad gyda'r rhanddeiliaid

Yng nghyd-destun y sialensau a wynebir, nodwyd y byddai rhain yn cynnwys:

- Ymgynghori gyda'r rhanddeiliaid
- Caniatadau / amodau strwythur rhestredig
- Anghenion ecologeol / amgylcheddol
- Ddim yn gwybod hyd y gwaith a faint o aflonyddwch fydd ar y rheilffordd

Rhoddwyd cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau i'r swyddog ac fe amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(a) Gwnaed apel gan y Cadeirydd ac Aelod Seneddol Dwyfor/Meirionnydd i fod yn realistig gyda'r amserlen gwaith o gofio trafferthion a fu gyda'r oedi yn deillio o atgyweirio Pont Briwet, Penrhyndeudraeth, a hyderir bod gwersi wedi dysgu o hyn. Yn ogystal, nodwyd bwysigrwydd ac apeliwyd i Network Rail gyd-weithio gyda Threnau Arriva Cymru.
(b) Pwysigrwydd i hysbysebu'r cyhoedd o'r hyn sy'n digwydd
(c) Gofynnwyd am sicrwydd y byddai'r llwybr yn ymyl y bont yn aros yn agored ac anogwyd cyd-weithio gyda Chyngor Gwynedd yn hyn o beth
(d) Bod yr A496 yn briffordd brysur iawn ac yn beryglus yn sgil nifer o ddamweiniau sydd wedi digwydd yn ddiweddar ac y dylid ystyried cyfyngiad o 40 m.y.a. ar y ffordd. Pe byddai dawain ar y ffordd dan sylw golygai hyn i orfod dargyfeirio teithwyr oddeutu 60 milltir.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch am y cyflwyniad.**

7. **<u>ADRODDIAD GAN DRENAU ARRIVA CYMRU CYF</u>**

Derbyniwyd adroddiad llafar gan Mr Ben Davies, Trenau Arriva Cymru, gan nodi

- bod cynnydd yn nifer o deithwyr sy'n defnyddio'r trenau a'r broblem ydoedd nad oedd ganddynt ddiogon o drenau
- y bydd darpariaeth Wi-fi yn cael ei roi ar drenau'r 150, 158 a'r 175 y Cambrian o fis Medi ymlaen gan dynnu sylw y bydd rhai mannau nas gellir cael mynediad ond sicrhawyd y byddai modd cael cysylltiad yn y Gorsafoedd

- bod y Gwyl Gomedi a gynhaliwyd ym Machynlleth dros Wyl Banc Calan Mai wedi bod yn llwyddiant i'r gwasanaeth ac i'r gymuned
- y byddir yn parhau gyda'r gwaith caled o hyrwyddo a datblygu'r gwasanaeth am y ddwy flynedd nesaf hyd nes y daw'r fasnachfraint i ben
- bod y Cynllun Waled Oren ar gyfer anghenion pobl gyda anawsterau dysgu yn llwyddiannus dros ben a'i bod yn cael eu hyrwyddo ar ffurf ffilm o gwmpas y wlad erbyn hyn
- o safbwynt cyhoeddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg ar rheilffordd y Cambrian, sicrhawyd bod yr iaith Gymraeg yn bwysig i Drenau Arriva Cymru ac fe fyddir yn trefnu gwasanaeth dwyieithog ar gyfer pob un o'r Gorsafoedd yng Nghymru. Nodwyd ymhellach nad oedd problem yn y Gorsafoedd ond profir problemau ar y trenau oherwydd y pellter rhwng gorsafoedd. Mewn ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd o amserlen i dderbyn darpariaeth dwyieithog ar reilffordd y Cambrian, esboniodd Mr Ben Davies nad oedd modd rhoi dyddiad penodol ond y byddai yn dilyn y mater i fyny gan sicrhau bod darpariaeth yr iaith yn cael ei gynnwys yn y masnachfraint newydd. Nodwyd ymhellach bod pob un o docynnwyr Trenau Arriva Cymru yn siarad yr iaith
- y bydd y lifft wedi eu gwblhau yng Ngorsaf Machynlleth erbyn 18 Mehefin 2016
- o safbwynt y tren 8.00 y.h. o Fachynlleth i Pwllheli ddim yn stopio ymhob Gorsaf ar y lein, eglurwyd mai'r brif broblem ydoedd bod cyfyngiad ar yr amser i'r gyrrwyr y trenau fedru gyrru heb doriad (4 awr) ac os bydd yn rhaid stopio yn y gwahanol orsafoedd byddent yn mynd dros yr amser caniatiedig i yrru. Awgrymwyd mai'r ffordd orau ymlaen ydoedd trafod ymhellach gyda Mr Ken Skates, Aelod Cynulliad, ac apeliwyd ar i Aelod Seneddol Dwyfor/Meirionnydd, Aelod Cynulliad Dwyfor/Meirionnydd ddilyn y mater i fyny hefyd.
- Bod trafodaethau yn parhau gyda Chyngor Gwynedd ynglyn a'r Ganolfan Dwristiaeth yn Abermaw, oherwydd bod y Cyngor yn awyddus i'w gau ac ar hyn o bryd yn gwerthu tocynnau i Trenau Arriva Cymru ar gyfer rheilffordd y Cambrian.
- Bod "app.trainline" newydd ar gael ar gyfer archebu tocynnau i ffonau symudol priodol "Arriva Train Tickets"
- O safbwynt platfform isel, bod Trenau Arriva Cymru wedi ymgymryd a gwaith i adnewyddu 27 ohonynt a bod mwy i'w wneud

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r adroddiad.**

**(b) Anfon llythyr o longyfarch i Ken Skates, Aelod Cynulliad – Ysgrifennydd Economi ac Isadeiledd Cabinet Llywodraeth Cymru (Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure) ac i'w wahodd i fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor hwn i'r dyfodol.**

8. **<u>ADRODDIAD SWYDDOG PARTNERIAETH RHEILFFYRDD Y CAMBRIAN</u>**

Yn absenoldeb y Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian cyflwynwyd ei adroddiad i'r Pwyllgor, er gwybodaeth, a oedd yn amlinellu gweithgareddau / cyhoeddiadau a weithredwyd ganddo ers y cyfarfod diwethaf.

Nododdd y Cadeirydd y bydd y Rheilffordd yn dathlu 150 o flynyddoedd yn 2017 a hyderir y bydd digwyddiadau yn cael eu trefnu ar gyfer y dathliad.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r adroddiad.**

9. **ADRODDIAD GAN HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDAIN**

Yn absenoldeb yr Heddwas Rob Newman cyflwynwyd ei adroddiad I'r Pwyllgor, er gwybodaeth, a oedd yn nodi gostyngiad ym mwyafrif o droseddau ar lein Arfordir y Cambrian.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch i'r Heddwas Rob Newman am yr adroddiad.**

10. **CWESTIYNAU FFURFIOL**

Cyflwynwyd pedwar gwestiwn ysgrifenedig ffurfiol gan Aelodau o'r Gynhadledd a Chyngor Cymuned ac fe nodwyd bod y swyddogion perthnasol wedi ymdrin a rhain yn ystod eu cyflwyniadau.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

11. **GOHEBIAETH**

Cyflwynwyd ddatganiad gan Gyngor Cymuned Dyffryn Ardudwy a Thalybont nad ydynt yn cefnogi ail-agor y rheilffordd o Afonwen i Bangor oherwydd amcan o'r gost o gympas £50 miliwm a fyddai yn gallu cael ei wario'n well ar wella'r ffyrdd yn ardal Meirionnydd.

**CADEIRYDD**

NetworkRail

# Adroddiad i Gynhadledd Llinell Arfordir y Cambrian

## PENODI RHEOLWR GYFARWYDDWR NEWYDD I'R LLWYBRAU

Ym mis Awst ymunodd Andy Thomas â Network Rail fel Rheolwr Gyfarwyddwr newydd Llwybrau Cymru.

Mae Andy, a anwyd ac a fagwyd yn Sir Benfro, wedi cael gyrfa ryngwladol amrywiol ym meysydd rheilffyrdd, trafnidiaeth a diwydiant.

Mae hyn wedi cynnwys swyddi uwch yn Transport for New South Wales, Transport for London, ac yn fwyaf diweddar bod yn rheolwr gyfarwyddwr Mass Transit Metro yn Hyderabad, India.

Mae Andy wedi dweud yn glir mai ei flaenoriaeth yw sicrhau bod Llwybrau Cymru'n cyflawni blaenoriaethau cynrychiolwyr etholedig a'r cymunedau maen nhw'n eu cynrychioli.

Gan gydweithio â'n partneriaid yn y diwydiant mae Andy eisiau sicrhau ein bod yn cyflawni i deithwyr ac i'n cymdogion ar hyd ein llinellau.

Mae llawer iawn mwy o ddatganoli'n digwydd yn Network Rail a bydd llawer mwy o benderfyniadau'n cael eu gwneud ar lefel y llwybrau.



*Andy Thomas, rheolwr gyfarwyddwr newydd llwybrau Cymru*



*Roedd traphont eiconig Abermaw ar gau dros dro i deithwyr rheilffordd ar ôl tân y mis diwethaf*

## AILAGOR TRAPHONT ABERMAW AR ÔL TÂN

Fel y bydd y cynadleddwyr yn gwybod, bu tarfu ar wasanaethau ar linell Arfordir y Cambrian y mis diwethaf ar ôl i Draphont Abermaw gael ei chau oherwydd tân.

Bu'r llinell rhwng Abermaw a Thywyn ar gau rhwng dydd Mawrth 4 Hydref a dydd Llun 10 Hydref, gyda bysiau'n rhedeg yn lle trenau.

Gweithiodd peirianwyr Network Rail yn ddiflino i ailagor y llinell ar ôl i dân achosi difrod i ran o un o fwâu'r draphont.

Bydd rhywfaint o waith adfer yn dal i gael ei wneud dros yr wythnosau nesaf, gyda'r nos ac ar benwythnosau pan na fydd trenau wedi'u hamserlennu.

Nid yw'r tân wedi effeithio ar y llwybr cerddwyr a bydd hwnnw'n aros ar agor drwy gydol cyfnod y gwaith.

Mae Mark Peters, Peiriannydd Asedau, yn dod i roi cyflwyniad i Gynhadledd Llinell Arfordir y Cambrian ar 11 Tachwedd ac mae'n bwriadu sôn yn fanylach am ymateb Network Rail i'r tân, yn ogystal â rhoi'r newyddion diweddaraf i'r cynadleddwyr am ein cynlluniau ar gyfer y strwythur eiconig hwn yn y dyfodol.

Dilynwch ni ar Twitter... @NetworkRailWAL

# DIWEDDARIAD AR GROESFANNAU RHEILFFORDD

Fel y cadarnhawyd ar ôl y cyfarfod diwethaf, rydym yn bwriadu adnewyddu croesfan reilffordd Talwrn Bach. Ar hyn o bryd croesfan agored awtomatig â monitro lleol yw hon, ac rydym yn bwriadu ei hadnewyddu'n llwyr i'w gwneud yn groesfan rhwystrau awtomatig â monitro lleol.

Ein nod ar hyn o bryd yw gwneud y gwaith yn Nhalwrn Bach yn 2018 fel rhan o becyn mwy o waith adnewyddu croesfannau rheilffyrdd y byddwn yn ei gyflawni yn ardal Porthmadog. Fel rhan o'r prosiect hwn rydym hefyd yn adnewyddu'r groesfan rhwystrau a weithredir gan griw trên ym Mhorthmadog gan osod croesfan o'r un fath, ond mwy newydd, yn ei lle gyda goleuadau sefydlog ychwanegol i ddiogelu cerddwyr.

Rydym hefyd yn adnewyddu croesfan rhwystrau rhannol awtomatig Ynyslas, gan osod croesfan o'r un fath yn ei lle, gyda goleuadau sefydlog i gerddwyr a chamerâu i recordio modurwyr sy'n gyrru trwy oleuadau coch. Mae croesfan rhwystrau rhannol awtomatig Aberleri hefyd yn cael ei hadnewyddu yn yr un modd gyda goleuadau coch sefydlog i wella diogelwch i gerddwyr.



*Croesfan reilffordd Talwrn Bach*

# RHEILFFYRDD CYMUNEDOL

Mae Rheilffyrdd Cymunedol yn cynnwys pobl leol yn y gwaith o ddatblygu a hyrwyddo llwybrau, gwasanaethau a gorsafoedd lleol a gwledig. Mae'n caniatáu i gymunedau gael rhan uniongyrchol yn y gwaith o wella amgylchedd y rheilffyrdd trwy ddefnyddio adeiladau segur, darparu gwasanaethau ychwanegol fel caffis a gwella tir y rheilffyrdd.




*Rheilffyrdd Cymunedol:*

*gwneud gwahaniaeth yng ngorsaf Tywyn*

Yn y rhan fwyaf o ffyrdd, nid yw llwybrau rheilffyrdd cymunedol yn wahanol i weddill y rheilffyrdd. Maen nhw'n dal i fod yn gysylltiedig â'r rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol. Mae Cwmnïau Trên yn rhedeg trenau a gorsafoedd. Mae Network Rail yn cynnal a chadw'r trac, y signalau, y pontydd a'r twnelau.

Yr hyn sy'n eu gwneud yn wahanol yw eu Partneriaethau Rheilffordd, sy'n gweithio gyda'r diwydiant rheilffyrdd ac awdurdodau lleol i helpu i farchnata'r llinell ac i wella gorsafoedd, gwasanaethau trên, cysylltiadau bws a mynediad, pethau sydd i gyd yn helpu i gynyddu niferoedd teithwyr.

Mae gan linell y Cambrian nifer dda o gynlluniau Rheilffyrdd Cymunedol; mae hyn yn wych i'n teithwyr ac i'r cymunedau ar hyd y llinell, sy'n gweld llinell sydd eisoes yn hardd yn cael ei gwella trwy waith caled.

Mae gwaith Network Rail i gynnal a chadw'r rhwydwaith yn cael ei gynorthwyo'n fawr gan y cynlluniau hyn ac yn rhoi i Network Rail rwydwaith sy'n canolbwyntio mwy ar y teithwyr.

Mae'r cynlluniau presennol ar hyd llinell Arfordir y Cambrian yn cynnwys Tywyn, gorsaf Tywyn, Penychain a Chricieth (llun uchod).

Mae ein rheolwr cwsmeriaid, Ian Messner, wedi gofyn imi ddiolch i'r deiliaid trwyddedau a gymerodd ran yn arolwg Rheilffyrdd Cymunedol 2016. Mae Ian wrthi'n datblygu cyfres o gamau i wella ymhellach y berthynas rhwng Network Rail a'n partneriaethau rheilffordd cymunedol yn y dyfodol.

PARTNERIAETH RHEILFFYRDD Y CAMBRIAN RAILWAYS PARTNERSHIP

# Adroddiad y SDLl Hydref 2016 ar gyfer Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambrian

**Shopmobility yn Aberystwyth**
Mae'r gwaith wedi ail-ddechrau gyda'r prosiect yma ac yn ddiweddar cwrddais â Dawn Toland o'r Gymdeithas Gofal i gadarnhau'r camau nesaf. Rydym yn bwriadu cael trefniant 'cwrdd a chroesawu' yn ei le ymhen ychydig wythnosau. Rhaid i ni drefnu arwyddion a hefyd cyflwyno datganiad i'r wasg yn ystod yr amser yma ac rwyf yn gobeithio y gallwn weithio gyda'r Gymdeithas Gofal a Threnau Arriva Cymru i hybu'r bartneriaeth ddefnyddiol yma.

**Arddangosfa Flodau yng Ngorsaf Aberystwyth**
Diolch i gymorth gan Gyngor Tref Aberystwyth, Canolfan Arddio Newman's a Llewod Aberystwyth, llwyddodd myfyrwyr o Goleg Ceredigion i ychwanegu tipyn o liw i'r orsaf ac mae llawer o deithwyr a chwsmeriaid o Wetherspoons, Craft a'r bwyty Indiaidd wedi ei ganmol. Mae Dai (swyddfa docynnau) wedi cymryd cyfrifoldeb am ddyfrio a gofalu am y blodau yn ystod gwyliau haf Coleg Ceredigion, ac maent yn dal i edrych yn wych.

**Help Llaw - prosiect ffilm a gwaith dilynol:**
Rwyf yn falch iawn fod Paul Maynard AS - Gweinidog Rheilffyrdd yr Adran Drafnidiaeth, wedi cysylltu â mi i ofyn am gyfarfod ynglŷn â'n gwaith gyda'r ffilm 'Help Llaw' ac rwyf wrthi ar hyn o bryd yn cysylltu gyda'i swyddogion i benderfynu ar ddyddiad yn y dyfodol agos. Yn ychwanegol, mae Liz Saville Roberts yr AS dros Feirionnydd, hefyd wedi tynnu sylw at ein ffilm yn San Steffan ac rydym yn dal i fwriadu cynnal cyfarfod arbennig yno a hynny cyn diwedd y flwyddyn gobeithio.

**Menter Llyfrgell**
Fel rhan newydd o'r Prosiect Teithiwr Talog datblygwyd menter newydd i feithrin cysylltiadau agosach gyda ysgolion a llyfrgelloedd a threialwyd hyn am y tro cyntaf ym mis Mehefin. Aed a disgyblion o Ysgol Tan y Castell (Harlech) ar y trên i Borthmadog ynghyd â'u hathrawon a chynrychiolwyr o PRhC a TAC i fynd i sesiwn yn y llyfrgell a drefnwyd gan Gyngor Gwynedd. Cafodd y disgyblion gyflwyniad i'r llyfrgell gan ddychwelyd i'r ysgol ar y trên gyda llyfrau roeddent newydd eu benthyg fel rhan o fenter ehangach i annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio llyfrgelloedd.

**Digwyddiad Cymdeithas Arriva UK plc a Chymunedau**
Yr wythnos yma gwahoddwyd Phil Caldwell a minnau i roi cyflwyniad ar ein gwaith ynglŷn â Phrosiect y Teithiwr Talog mewn digwyddiad i Gymdeithas Arriva UK a'r Cymunedau. Dyma enghraifft arall o sut mae gwaith Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian yn cael ei

gydnabod yn genedlaethol fel partneriaeth flaengar sy'n gweithio'n llwyddiannus gyda'r Cwmni Gweithredu Trên.

**Arwydd cymunedol Caersws / Canolfan Gelf y Canolbarth**
Mynychais gyfarfod gyda chynrychiolwyr o Gyngor Cymuned Caersws a Chelfyddau'r Canolbarth gyda'r bwriad o lunio arwydd newydd i orsaf Caersws a'r posibilrwydd o'i uno gyda phrosiect ehangach i'r gymuned, efallai gyda chefnogaeth PRhC. Cynhelir cyfarfod arall yn fuan gan fod y tymor ysgol wedi dechrau.

**Gwobrau ACORP:**
Roeddem yn llwyddiannus i ennill ail wobr gyffredinol yn y categori 'prosiectau bach' i arddangosfeydd gorsafoedd ar sail y gwaith yn ymwneud â Phrosiect y Teithiwr Talog ble dangosir posteri diogelwch plant ysgol yn eu gorsafoedd lleol ar Lein Arfordir y Cambrian. Cafodd y cesys i'r posteri eu hariannu gan Bartneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian.

**Ffilm 'hyrwyddo' newydd**
Mae'r gwaith ffilmio wedi dechrau ar ffilm newydd i hyrwyddo'r Cambrian a byddwn yn ei defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar ein gwefan. Bydd ar gael i unrhyw un sy'n dymuno ei defnyddio ac mae yn canolbwyntio ar y golygfeydd a blas o beth sydd i'w weld a'i wneud yn ardal rheilffyrdd y Cambrian. Nid yw'r ffilm yn canolbwyntio ar y trên, ond yn hytrach ble y gall y trên fynd a chi - rhoddir sylw i olygfeydd arfordirol a mewndirol ac fe'i lluniwyd gan sicrhau ei bod yn cyd-blethu gyda themâu Croeso Cymru am y ddwy flynedd nesaf o leiaf (er bydd gan y ffilm oes llawer hwy). Ni chafodd ei dylunio i gystadlu gydag ymgyrchoedd hyrwyddo uchel ael ond cafodd ei chynhyrchu gyda'r cyfryngau cymdeithasol a defnydd ar-lein mewn cof.

**Ymgyrch Croesfannau Diogel:**
Ar sail ein harbenigedd ffilm a'n portfolio gwobredig (!) rydym ar hyn o bryd yn dechrau ar brosiect newydd ar y cyd gyda Network Rail i fynd i'r afael gyda'r angen am adnodd gwybodaeth ar y defnydd cywir a phriodol o groesfannau galwedigaethol (yn bennaf) ac mae nifer ohonynt ar leiniau'r Cambrian ac yn wir ym mwyafrif ardaloedd gwledig y DU. Cynhaliwyd y cyfarfod cychwynnol eisoes gyda chynrychiolwyr o TAC a Network Rail i drafod y ffordd ymlaen ac rwyf hefyd wedi siarad cryn dipyn gyda Chyfarwyddwr Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru, sydd wedi mynegi diddordeb i gael y mudiad i fod yn rhan o hyn ac i helpu gyda chyflwyniad yr ymgyrch.

**Cyhoeddiadau**
Bwriedir dechrau ar y gwaith o gynhyrchu dau gyhoeddiad newydd yn fuan ac mae'r rhain wedi eu hanelu at y marchnadoedd twristiaeth a cherdded hamddenol. Ar hyn o bryd rydym wrthi yn ymgymryd â gwaith ymchwil ar gyfer Crwydrau'r Cambrian newydd sbon, sef teithiau cerdded ar Arfordir y Cambrian i ddechrau - a bydd cysylltiad agos gyda rhwydwaith Llwybr Arfordir Cymru.

Bydd 'Connections 2' hefyd yn cael ei gynhyrchu yn ystod misoedd y gaeaf yn barod ar gyfer y gwanwyn.

Rydym hefyd yn falch iawn fod y llyfryn 'Big Trains meets Little Train' wedi ei gyflwyno yn llwyddiannus gan dîm Trenau Bach Cymru ac mae yn cynnwys manylion am holl drenau bach Cymru gyda rhan benodol ar y Cambrian y bûm i yn gweithio arno gyda'r golygwyr a'r cyhoeddwyr. Cyflwynwyd y llyfryn am y tro cyntaf yng Ngorsaf King's Cross yn Llundain yn gynharach yn yr haf ac fe'i cynhyrchwyd drwy garedigrwydd ariannol yr Adran Drafnidiaeth. Mae clawr blaen y llyfr yn dangos Gorsaf Penhelyg ac ar y cefn mae llun o uned 158 TAC yn croesi morfa'r Fawddach - y ddau lun ar lein y Cambrian.

**Ffair Glasfyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth**
Yr wythnos nesaf cynhelir Ffair Glasfyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth dros ddeuddydd a byddwn yn hybu Leiniau'r Cambrian i'r myfyrwyr fel arfer gan rannu ein stondin a chostau gyda Traveline Cymru.

**Rheilffyrdd Cymunedol Cymru**
Trwy weithio gyda'n cydweithwyr mewn Partneriaethau eraill yn ardal masnachfraint Cymru a’r Gororau rydym wedi rhyddhau ac ailwampio cyhoeddiad 'Dim Car, Dim Problem' mewn pryd ar gyfer Sioe Flodau Amwythig ble bûm i a chydweithwyr o leiniau eraill yn brysur yn treulio ychydig o ddyddiau yn hyrwyddo gwyliau trên yng Nghymru a'r gororau. Mae'r sioe deuddydd yma fel arfer yn gweld tua 60,000 o ymwelwyr ac mae mewn lle delfrydol i hyrwyddo ein leiniau (o ystyried pwysigrwydd daearyddol Amwythig o ran y trên). Yn ystod y sioe cadwyd cofnod o ymholiadau pobl a gwelwyd mai lein Calon Cymru ac yna leiniau'r Cambrian oedd y gwasanaethau yr holwyd amdanynt fwyaf.

Paratowyd adroddiad ar y sioe ar y cyd gan dîm Rheilffyrdd Cymunedol Cymru i Lywodraeth Cymru (yn atodol).

**Ceisiadau Grant Cronfa Gyfalaf Rheilffyrdd Cymunedol Llywodraeth Cymru**
Byddwn yn gwneud cais i gynllun Grant Cronfa Gyfalaf Rheilffyrdd Cymunedol Llywodraeth Cymru ac yn wreiddiol y bwriad oedd gwneud cais am gyfraniad tuag at brosiect uchelgeisiol i greu cyfnewidfa yng ngorsaf Machynlleth a fyddai yn haws i'w ddefnyddio drwy ganiatau mynediad i fysiau/bysiau pleser gan hefyd bron i ddyblu'r mannau parcio yn yr orsaf. Yn anffodus, nid ydym eto mewn sefyllfa i wneud cais yn hyderus oherwydd yr oedi cyn derbyn canlyniadau'r arolygon daear a fedrai gael effaith sylweddol ar y costau cyffredinol.

Rydym felly yn obeithiol y bydd y cynllun grant cyfalaf yn parhau yn 2017-2018 gan ddarparu mwy o gyfle i ni wneud cais ar gyfer y prosiect yma.
Er hynny, bwriadwn gyflwyno ceisiadau ar gyfer cynigion eraill gwerth chweil gan gynnwys cysgodfannau ychwanegol yng ngorsafoedd y Trallwng, Cyffordd Dyfi a chysgodfan arall yn lle'r un bresennol (sydd wedi gweld dyddiau gwell) yn Llanaber. Cyflwynir y ceisiadau cyn diwedd mis Medi ac rwyf ar hyn o bryd mewn cysylltiad gyda TAC a Llywodraeth Cymru am hyn.

**Rhydian Mason**
**Swyddog Datblygu Rheilffyrdd**
**Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian**
**rhydian.mason2@ceredigion.gov.uk**
**23/09/16**

**ADRODDIAD AR BARTNERIAETHAU RHEILFFYRDD CYMUNEDOL CYMRU A'R GORORAU- ARDDANGOSFA SIOE FLODAU AMWYTHIG, AWST 2016**

Trwy weithio gyda'n gilydd mae Swyddogion Rheilffyrdd Cymunedol Cymru a'r Gororau wedi cynllunio nifer o ddigwyddiadau fel rhan o ddigwyddiadau cenedlaethol eraill fel 'Rheilffyrdd Cymunedol yn y Ddinas' ac eleni roeddem yn ffodus i gael cynnig lle am ddim yng ngorsaf reilffordd Brimingham New Street. Yn ogystal dewisiwyd Sioe Flodau Amwythig, gan ein bod wedi bod yno o'r blaen, i hyrwyddo'r trenau ar y cyd ac roedd sawl rheswm dros hyn:

- Yn gyffredinol mae'r niferoedd sy'n ei mynychu dros y ddau ddiwrnod tua 60,000 o ymwelwyr.
- Roedd yn hygrych i holl swyddogion y Bartneriaeth a fyddai'n gorfod gweithio ar y stondin.
- Roeddent yn cynnig stondinau gyda tho.
- Roedd yn fwy na dim ond sioe flodau, gyda nifer o ddigwyddiadau, stondinau masnach ac ati yn denu ystod eang o ymwelwyr.
- O'n profiad yn y gorffennol mae llawer o ymwelwyr yn defnyddio Amwythig fel eu canolfan am yr wythnos cyn neu ar ôl y sioe ac roeddent yn edrych am wybodaeth am ble i fynd. Roedd yr Amwythig fel canolfan reilffordd o fudd mawr gyda amrywiaeth eang o lefydd gwahanol i ymweld â hwy.
- Gallai pob partneriaeth weld manteision y cyfle i gydhyrwyddo gan na fyddai partneriaeth unigol yn gallu fforddio hyn eu hunain a heb adnoddau digonol - ond drwy uno adnoddau roedd hyn yn bosib.

Defnyddiwyd y digwyddiad i hyrwyddo 'Golygfeydd Cymru a'r Gororau ar y Trên 'Dim car, dim problem', y map a ddatblygwyd dros y blynyddoedd i'w ddefnyddio mewn digwyddiadau o'r fath. Diwygiwyd ac ailagraffwyd y map dwyieithog ar gyfer y digwyddiad. Hyrwyddwyd ystod eang o daflenni a baneri arddangos unigol hefyd ynghyd â llyfrynnau twristiaeth lleol ac ardaloedd ehangach ynghyd ag amserlenni. Mae rheilffyrdd treftadaeth hefyd yn boblogaidd felly arddangoswyd ystod o'u taflenni hwythau. Denodd y Sioe Flodau Reilffordd Ffestiniog ynghyd â loco a thrac ac fe wnaethom gyd-gysylltu â hwy gan rannu llenyddiaeth hyrwyddo ac fe wnaeth y ddwy stondin gyfeirio ymwelwyr i stondin ei gilydd pan roedd hynny yn briodol.

Gosodwyd y stondin gan dri swyddog ymlaen llaw ar ddydd Iau, 11eg o Awst gan ei thynnu i lawr ar ddydd Sul 14eg gan nad oedd unrhyw gerbydau yn cael mynediad i faes y sioe y tu allan i'r amseroedd hyn. Dyddiadau'r sioe oedd 12fed a'r 13eg o Awst. Cafwyd shifftiau ar y stondin gyda Sheila Dee, Rhydian Mason, Gill Wright, Melanie Lawson a David Edwards yn gwneud eu tro a rhoddwyd cymorth ychwanegol gwerthfawr gan Geraint Morgan (dydd Gwener) o Drenau Arriva Cymru a chafwyd help stondinau arddangos symudol a Moria Davidson (dydd Sadwrn).

Aed â 1000 o gacennau cri bach wedi eu pacio a'u labelu gyda ni. Cynhyrchwyd y rhain yn lleol ar bris arbennig i ni gan fusnes bach yn Llangollen. Defnyddiwyd y rhain i'r rhoi i

ffwrdd am ddim ac i ddiolch i'r ymwelwyr am ddod i'r stondin ac fe aeth y cwbl a chafwyd sylwadau gwerthfawrogol am Gymru yn aml gan y rhai a'i derbyniodd.

Cafwyd tywydd da, er ei bod ychydig yn wyntog, ac er nad yw union ffigyrau nifer y rhai a fynychodd y sioe ar gael eto disgwylir iddynt fod tua 60,000, ond yn ôl pob sôn bydd y ffigwr yn uwch na'r llynedd.

Roedd gennym holiadur ipad ar gael, wedi ei ddylunio a'i gynhyrchu ar ein cyfer gan Gyngor Conwy drwy Melanie, mewn ymdrech i gofnodi nodweddion demograffeg yr ymwelwyr i'r stondin ond roedd hyn yn amhosib oherwydd y niferoedd a ddaeth i'r stondin a'r trosiant. O'r hyn a welwyd, roedd mwyafrif yr ymwelwyr yn ganol oed neu'n hŷn gydag ychydig yn fwy o ferched er y gwelwyd nifer o gyplau a grwpiau teuluol. Roedd y mwyafrif o ardal ehangach Canolbarth Lloegr gyda eraill (e.e.) gorllewin Cymru, Manceinion a Lerpwl. Roedd llawer yn bobl leol ond roedd cynrychiolaeth dda o ymwelwyr.

Cadwyd cofnod o nifer yr ymwelwyr a aeth a mapiau 'Golygfeydd Cymru a'r Gororau' gyda hwy ac os y dangoswyd diddordeb penodol mewn pynciau cludiant a thwristiaeth.

Roedd canlyniadau'r ymwelwyr ddaeth i'r stondin yn ystod y ddau ddiwrnod fel a ganlyn:

| Maes diddordeb: | Niferoedd |
|---|---|
| Golygfeydd Cymru a'r Gororau | 452 |
| Cambrian | 113 |
| Dyffryn Conwy | 53 |
| Lein Calon Cymru | 119 |
| Caer-Amwythig | 38 |
| Lein y Gororau | 2 |
| Arfordir Gogledd Cymru | 30 |
| Eraill yn cynnwys Treftadaeth, arweiniad rhanbarthol, amserlenni ac ati | 142 |
| Cyfanswm | 949 |

**Sylwadau Cyffredinol**

Cafwyd llawer o sylwadau gan yr ymwelwyr yn ein canmol am fod yno ac yn hyrwyddo pob rheilffordd yn ogystal â thynnu sylw at wasanaethau bysiau pellter hir ac roeddent yn cefnogi'r syniad o hyrwyddo twristiaeth drwy ddefnyddio cludiant cyhoeddus. Unwaith eto roedd map 'Golygfeydd Cymru a'r Gororau' yn boblogaidd iawn gan ei fod yn dangos y rhwydwaith gyfan gyda mwy o fanylion ar y fersiwn newydd am siroedd y gororau a'r mynediad i ac o ddinasoedd Lloegr a'r meysydd awyr.

Roedd y sylwadau eraill yn cynnwys yr isod:

- ymholiadau teithio penodol ('pa drên ddylwn i ei gymryd ar gyfer xxxx')
- fedrai ddefnyddio fy mhas bws i o Loegr yng Nghymru?
- sut fedrai gael gwybod am lety?
- pa drenau stêm sydd ar gael i mi deithio arnynt?
- pa mor hawdd ydi hi i fynd i'r traethau o drên o Amwythig?
- dwi'n aros yn Amwythig wythnos yma ble fedrai fynd ar y trên?
- pa mor aml mae yna wasanaeth i x?

Byddwn yn dosbarthu'r adroddiad yma i'r partneriaid ariannu er mwyn cynorthwyo ar gyfer cynllunio digwyddiadau 2017 ar y cyd.

**DIWEDD**

## Adroddiad i Bwyllgor Cyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian

## Hydref 2016

Eleni, gwelwyd gostyngiad pellach yn y mathau o droseddau gwahanol gaiff eu trin gan Heddlu Trafnidiaeth Prydain ar Reilffordd Arfordir y Cambrian.

Bu lefel sylweddol is, ers Ebrill eleni, o gamddefnyddio croesfannau rheilffordd a adroddwyd ac o ganlyniad dim ond pump gyrrwr cerbyd gafodd eu dal am y troseddau hyn. O'r rhain, roedd pedwar am drosedd Gyrru Diofal, tri yng Nghroesfan Reilffordd Talwrn Bach yn Llanbedr. Roedd yn llall yng nghroesfan Morfa Harlech, ond ers i'r marciau ffordd wrth ddynesu at y groesfan gael eu hailbeintio yn gynharch yn yr haf ni chafwyd unrhyw adroddiad o gamddefnyddio.

Bu'r achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol hefyd yn is eleni. Cafwyd un digwyddiad ar ddiwedd Mawrth pan aeth grŵp o ddynion meddw iawn ar drên yn Abermaw i deithio i Bwllheli. Achosodd eu hymddygiad i ddau ohonynt gael eu gollwng o'r trên yn Llanbedr a dau arall ym Mhorthmadog. O ganlyniad uniongyrchol i’r digwyddiad yma cafodd dau aelod o'r grŵp Rybuddion gan yr Heddlu am Droseddau yn erbyn y Drefn Gyhoeddus. Mae dau arall yn aros i fynd i'r llys mewn perthynas â throseddau Gweddusrwydd Cyhoeddus. Roedd y Tocynnwr oedd yn rhan o'r digwyddiad yma'n wedi cymryd ati yn arw oherwydd yr ymddygiad y bu'n rhaid iddi ddelio ag ef.

Roedd gŵr o ardal Telford yn aros i ymddangos yn y llys ar ddechrau Tachwedd wedi iddo ymosod ar aelod o'r tîm glanhau ar y trên ac roedd yn ddifrïol yn eiriol i Docynnwr ym Machynlleth ym mis Awst.

Mae gŵr arall hefyd ar fechnïaeth yr heddlu ar hyn o bryd mewn cysylltiad ag amrywiaeth o droseddau a ddigwyddodd mewn sawl ardal o'r DU ac i honiad o drosedd yn erbyn tocynnwr ym Machynlleth. Mae ef yn cynorthwyo'r heddlu gan iddo geisio dianc o'r ardal.

Mae Heddlu TP yn gweithio'n agos gyda Trenau Arriva Cymru i ddarparu gwell patroliau gwasanaethau ar y trên ar hyd lein y Cambrian hyd at y Nadolig, pan fydd y trenau yn brysurach nag arfer gyda phobl yn dathlu ac yn mynd i bartïon.

Mae Heddlu TP yn dymuno sicrhau'r holl deithwyr a Chriw y Trên y byddwn yn ymdrin gyda digwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol ar drenau a gorsafoedd mewn ffordd gref gan roi unrhyw droseddwyr o flaen y llys, os bydd angen.

Gellid cysylltu â Heddlu TP 24 awr y dydd ar Rhad-ffôn 0800-405040 neu ein gwasanaeth Tecst ar 61016.

# CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN
# CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE

**Cwestiwn i TRENAU ARRIVA CYMRU CYF. / Question for ARRIVA TRAINS LTD**

**Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL**

**Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING**

Is the committee satisfied that plans are in place for the provision of sufficient rolling stock to meet passenger demands during the period of the new franchise for the Wales & Borders service?
This franchise could be 10 or 15 years in length commencing circa 2020.

**I'w dychwelyd i / To be returned to:**

**Glynda O'Brien**
**Swyddog Cefnogi Aelodau**
**Cyngor Gwynedd**
**Cae Penarlag**
**DOLGELLAU**
**Gwynedd. LL40 2YB**

**Erbyn / By:** **21.10.16**

**CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**
**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE**

**Cwestiwn i TRENAU ARRIVA CYMRU CYF. / Question for ARRIVA TRAINS LTD**

Pam nad oes cyhoeddiadau yn cael eu gwneud yn y Gymraeg neu o leiaf yn ddwyieithog ym mhob gorsaf ar y lein ? Pryderir yn fawr nad oes blaenoriaeth yn cael ei roi i'r Gymraeg.

Why are there no Welsh or at least bilingual announcements in each Station on the railway line? It is of great concern that the Welsh language is not given priority.

**Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL**

**Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING**

Oddiwrth / From: CYNGOR TREF PORTHMADOG
…………………………………………………………………………………..

**I'w dychwelyd i / To be returned to:** **Glynda O'Brien**
**Swyddog Cefnogi Aelodau**
**Cyngor Gwynedd**
**Cae Penarlag**
**DOLGELLAU**
**Gwynedd. LL40 2YB**

**Erbyn / By:** **21.10.16**

## CYNGOR CYMUNED LLANNOR

**Clerc: Haydn Jones, Bryn y Felin, Penrallt, Pwllheli, LL53 5UE**
**Rhif ffôn: 01758-614291**


Gorffennaf 12fed 2016.

Cynghorydd Trefor Jones
Talar Deg
Chwilog
Pwllheli
Gwynedd

Annwyl Gynghorydd,

Parthed: Cynhadledd Gyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian.

Diolch i chi am godi pryderon Cyngor Cymuned Llannor yn y gynhadledd uchod a gynhaliwyd yn ddiweddar.

Cyfeiriaf at ymateb Sam Hadley, Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus Network Rail a drafodwyd yng nghyfarfod mis Gorffennaf o'r Cyngor Cymuned.

Nid yw'r aelodau yn derbyn fod yr ysbwriel i gyd yn deillio o Ganolfan Ailgylchu Pwllheli gan ei fod yr holl ffordd o Bwllheli i Benychain.

Byddai'r aelodau yn ddiolchgar o dderbyn cadarnhad o'r camau sydd yn mynd i'w cymryd gan Network Rail i adfer y sefyllfa.

Yn gywir

**Haydn Jones**
**Clerc**